



Tyfiant newydd a cherddwyr ar Fferm Wynt Pen y Cymoedd (lluniau gan Michael Hall).



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt  
**PEN Y CYMOEDD**  
Wind Farm Community Fund CIC

# Fferm a Chronfa Pen y Cymoedd

Cylchlythyr Cymunedol, Gwanwyn 2022

**VATTENFALL** 



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt  
**PEN Y CYMOEDD**  
Wind Farm Community Fund CIC

# Bum Mlynedd yn Ddiweddarach

Ers 2017, mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd wedi bod yn cefnogi cymunedau ar draws cymoedd Afan, Rhondda, Cwm Cynon a Nedd uchaf.

Bu dros 4,000 o unigolion, sefydliadau a grwpiau cymunedol lleol yn ymwneud â gosod y weledigaeth wreiddiol ar gyfer Pen y Cymoedd. Amlygodd yr ymgysylltu hwn gyfleoedd i ysgogi datblygiad lleol o dan themâu fel chwaraeon, busnes, yr amgylchedd, treftadaeth a mwy.

Bwriad y Gronfa o'r cychwyn cyntaf oedd cael ei harwain gan y gymuned, ar gyfer y gymuned.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, rydym am ymgysylltu â chi, ein cymunedau, i adolygu ein cynnydd a gosod cynllun ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Yn y cylchlythyr

hwn rydyn ni'n dathlu'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn ac yn edrych i ble rydyn ni'n mynd nesaf.

Dyna pam yr ydym wedi lansio **Adfywio Gweledigaeth y Gronfa**. Rydym eisiau eich barn ar yr hyn y gallai eich cymuned leol elwa ohono fel ein bod yn gwybod beth yw'r ffordd orau i'ch cefnogi.

Rydym yn casglu barn leol i amlinellu'r cynllun ar gyfer y Gronfa dros y pum mlynedd nesaf ac rydym yn awyddus i glywed gan bawb. Gallwch ddarganfod mwy ac ychwanegu eich barn yma: <https://penycymoedd.cic.cymru/cy/adnewyddu-gweledigaeth-y-gronfa/>.

Pob llun wedi ei dynnu gan Michael Hall. Isod ar y chwith: David Jones a Rhian Hall, Amgueddfa Cwm Cynon. Isod ar y dde: Morgan Harries yn Ironworx Gym, Hirwaun.

## Ers 2017



**300 o brosiectau  
wedi'u cefnogi**

**133 o swyddi wedi'u  
creu a'u diogelu**



**£6.9 miliwn o gyllid  
wedi'i ddosbarthu**



Uchod: Melanie Blayney wrth y murlun a baentiwyd gan wirfoddolwyr lleol yng Nghanolfan Gymunedol Penderyn yn ystod y pandemig covid.

## **Cronfa COVID-19 o £500,000**

Mewn ymateb i'r pandemig, lansiodd y **CBC** gronfa **COVID-19** brys gwerth **£500,000** - a thrwyddi cefnogwyd **32** o fusnesau presennol i helpu i oroesi'r argyfwng a sefydlu **23** o brosiectau COVID-19-benodol newydd.



Llun gan Lee Williams

**Am bob £1 a fuddsoddir gan y Gronfa, cynhyrchir 47c i economi Cymru**

**Dros £380,000 o gyllid i gefnogi cychwyn busnesau newydd, gan gefnogi creu dros 50 o swyddi amser llawn.**

Ers 2017, mae Pen y Cymoedd wedi cefnogi dros **300** o brosiectau llawr gwlad gyda chyllid o £6.9miliwn.


Mae'r Gronfa hefyd wedi cefnogi **27** o fannau gwyrdd, gwerth cyfanswm o £283,000.

Mae'r Gronfa wedi cymeradwyo grantiau a benthyciadau yn amrywio o £280 i £491,000.

# Vattenfall: Di-ffosil erbyn 2040

Mae gan Vattenfall weledigaeth i alluogi byw heb ffosil o fewn un genhedlaeth, ac rydym yn cymryd camau mawr i leihau allyriadau o fewn ein gweithrediadau presennol. Ar ddiwedd mis Medi, fe wnaethom alinio ein hunain gyda'r nod ehangach o gyfyngu cynhesu byd-eang yn y ganrif hon i 1.5 gradd Celsius.

Hefyd, rydym yn rhan o gynllun peilot mawr sydd wedi gweld cynhyrchu 'dur di-danwydd ffosil' cyntaf y byd - gan ddefnyddio hydrogen yn lle glo - ac rydym yn archwilio datblygiad tanwydd hedfan cynaliadwy mewn partneriaeth â Shell, Lanzatech a SAS.



# Gwaith i genedlaethau'r dyfodol

## COP26 - sut rydym wedi cymryd rhan

Cynhaliodd Pen y Cymoedd ddarllediad byw y BBC yn ystod cynhadledd newid hinsawdd fyd-eang COP26. Roedd y darllediad yn dangos sut mae cynlluniau, fel Pen y Cymoedd, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i greu ynni glân ar gyfer cartrefi, swyddi a chyflogaeth a buddion i bobl leol.

## First Movers Coalition

Yn y gynhadledd newid hinsawdd fyd-eang COP26 ym mis Tachwedd fe wnaethom ymuno â chennad arlywyddol arbennig yr Unol Daleithiau dros hinsawdd John Kerry a phartneriaid eraill fel un o sylfaenywyr balch menter newydd sy'n anelu at gyflymu datblygiad technolegau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd - The First Movers Coalition.

Mae'r ymgyrch hon ar draws wyth sector o ddiwydiant sydd heddiw yn cyfrif am fwy na 30% o allyriadau CO<sub>2</sub> byd-eang, lle mae angen cyflymu technolegau newydd i leihau allyriadau.

## Addysg i genedlaethau'r dyfodol

Mae plant ysgolion cynradd o ardaloedd Nedd, Afan, Rhondda a Chwm Cynon wedi bod yn dysgu am ynni adnewyddadwy, diolch i gydweithrediad rhwng Vattenfall ac arbenigwyr addysg yn Sir Gaerfyrddin, Ynni Da.

Cyflwynwyd sgorsiau ar faterion gwyrdd perthnasol i blant a oedd yn cyd-fynd â COP26. Dangoswyd cyfres o ffilmiau hwyliog i'w helpu i ddeall newid hinsawdd, a darparwyd pecynnau o weithgareddau, fel adeiladu tyrbinau gwynt bach a phaneli solar.

Cawsant glywed sut mae enghreifftiau go iawn o brosiectau ynni adnewyddadwy, fel Pen y Cymoedd, yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Dywedodd Pennaeth Ysgol Gynradd Cwmnedd yng Nglyn-nedd, Sarah Harwood: "Roedd y cyfle hwn yn gam cyffrous i'n disgyblion. Gyda Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn enghraifft weladwy o ynni adnewyddadwy yn eu hardal leol, gall ein plant hefyd gysylltu'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth â'r hyn y gallant ei weld ar garreg eu drws."

Dywedodd Jeremy Miles, AS Castell-nedd, sy'n cefnogi'r prosiect: "Rwy'n falch bod newid hinsawdd a'r amgylchedd yma yng Nghymru wrth wraidd penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mewn byd sy'n cael ei siapio fwyfwy gan newid hinsawdd, mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc nid yn unig yn dysgu am ei effaith ond hefyd yn meddu ar wybodaeth ar gyfer swyddi gwyrdd y dyfodol. Mae mentrau cymunedol fel hyn yn gyfle gwych i ddisgyblion weld ynni adnewyddadwy a'r manteision a ddaw yn ei sgil, ar waith, yn agos at adref."

## Ailgylchu llafnau

Mae Vattenfall wedi ymrwymo i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 100% ar gyfer llafnau tyrbinau gwynt wedi'u datgomisiynu erbyn 2030. Er bod hyn yn ymddangos yn bell i ffrwrdd, rydym wedi gosod nod interim i ailgylchu 50% erbyn 2025. Hefyd, rydym wedi gosod gwaharddiad llwyr ar anfon llafnau sydd wedi'u datgomisiynu o'n ffermydd gwynt i safleoedd tirlenwi, a hynny ar unwaith.

Mae cyflawni ailgylchu 100% erbyn 2030 yn her fawr. Ond rydyn ni'n falch o'r rôl rydyn ni'n ei chwarae wrth greu dyfodol tanwydd di-ffosil.

## Prosiect Adfer Mawndiroedd yn paratoi ar gyfer gwanwyn a haf prysur

Mae gweithgaredd ym mhob Rhaglen Prosiect Adfer Mawndiroedd yn parhau a bydd 2022 yn un brysur iawn ar gyfer y prosiect partneriaeth hwn a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sydd wedi'i leoli yn yr Ucheldir uwchben RhCT a CNPT. Mae amserlen orlawm o ddigwyddiadau yn cael ei llunio ar hyn o bryd ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol - gan gynnwys Vattenfall, Cerddwyr Cymru a Chroeso i'n Coedwig.

Mae amrywiaeth o weithgareddau gwahanol ar gael yn yr ardal leol, yn rhad ac am ddim, i'r rhai sydd â diddordeb mewn pynciau fel cadwraeth natur, iechyd a lles neu dreftadaeth leol. Gyda safleoedd prosiect amrywiol o fewn cyrraedd cymunedau lleol, mae digon ar gael i bawb ei wneud. Mae gwirfoddoli'n rhan fawr o gynlluniau i adfer, cadw a gwella'r cynefinoedd naturiol yma, ac mae hyfforddiant ar gael i'r rhai sydd naill ai'n dymuno dechrau yn y sector amgylcheddol neu'n mwynhau bod yn yr awyr agored.

Os ydych chi'n mwynhau cerdded, nod y prosiect yw gwella llwybrau cerdded lleol ac mae'r Ffordd Mawndir arfaethedig - sy'n ymestyn o Barc Gwledig Cwm Dâr i Barc Coedwig Afan - yn bendant yn her. Mae hanes lleol yn chwarae rhan bwysig i bawb sy'n byw ac yn

ymweld â Chymoedd Rhondda Fawr Uchaf ac Afan, a thrwy'r Stori Adfer Mawndiroedd mae'r prosiect yn anelu at adrodd hanes tirwedd newidiol ar hyd yr oesoedd. Er mwyn gwneud cyfiawnder â hyn, yn ogystal ag adnabod chwedlau hynod ac anhysbys sydd dim ond yn gyfarwydd i gymunedau lleol, rydym yn apelio i unrhyw un sydd â gwybodaeth leol - boed yn straeon neu'n ffotograffau - mewn ymdrech i ddiogelu a dathlu hanes cyfoethog yr ardal hon.

Gallwch gymryd rhan mewn gweithdai neu sgwrsio â staff, ond unwaith y bydd y gwaith hwn yn barod bydd yn hysbysu paneli dehongli lleol, ap symudol cyffrous, a deunyddiau i helpu i addysgu cenedlaethau'r dyfodol ac ymwelwyr â'r ardal.

Mewn manau eraill yn y prosiect Adfer Mawndiroedd, mae gwaith adfer mawndiroedd ar y gweill ac mae mwy wedi'i gynllunio ar gyfer gaeaf 2022/23. Mae'n werth ymweld â'r safleoedd hyn, ac os hoffech chi arolygu poblogaethau adar neu ystumod lleol, neu hyd yn oed helpu i reoli'r cynefinoedd hyn o arwyddocâd byd-eang a phrin, ymunwch ag Ecolegwyr y Prosiect i helpu i gasglu data hanfodol a mwynhau'r anialwch fyny'n uchel.

I ddarganfod mwy am unrhyw un o'r uchod, ymuno fel gwirfoddolwr neu gyfrannu at y Stori Adfer Mawndiroedd, ewch i wefan y prosiect: [www.npt.gov.uk/lostpeatlands](http://www.npt.gov.uk/lostpeatlands), edrychwch amdanom ar gyfryngau cymdeithasol @LostPeatlands neu ffoniwch 07791638201.



# Pen y Cymoedd

## Cynllun Rheoli Cynefin

Mae ychydig dros dair blynedd ers sefydlu'r Cynllun Rheoli Cynefinoedd – prosiect a ariennir gan Vattenfall ac a gyflwynir gan Gyfoeth Naturiol Cymru – i adfer 1,500 hectar o gors ar draws ardal y fferm wynt.

Y flaenoriaeth ar gyfer y cynllun yw adferiad hydrolegol, neu ail-wlychu, tua 800 hectar o orgors ddirywiedig, rhostir gwlyb a sych a choetir brodorol.

Wrth ddychwelyd yr ardal i gyflwr mwy naturiol, y gobaith yw y byddai'r gors yn cloi mwy o garbon yn y tir ac yn dod yn gyfoethog mewn bywyd gwylt.

Gydag ymrwymiad 25 mlynedd i'r prosiect a chronfa o £3miliwn ar gael, mae cynnydd mawr eisoes yn cael ei wneud.

### Arwyddion cynnar calonogol

Yn ystod gaeaf 2020 cwblhawyd y gwaith o ail-wlychu ardal 15 hectar. Mae wedi cael ei fonitro am arwyddion o adferiad ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau ail-wlychu a gynhaliwyd.

Dywedodd rheolwr y prosiect, Gareth Roberts: “Mae lefelau dŵr daear wedi ymateb i'r gwaith ail-wlychu ac mae dadansoddiad diweddar yn dangos eu bod yn agos at yr wyneb am gyfnodau sylweddol o amser. Mae ardaloedd sydd wedi'u hail-wlychu hefyd yn dangos arwyddion o ail-gytrefu gan rywogaethau o blanhigion sy'n briodol i'w cynefinoedd, fel mwsoglau'r gors (Sphagna) a phlu'r gweunydd, sy'n newyddion calonogol.”

Yn ystod yr hydref a'r gaeaf, mae 10 hectar arall o waith ail-wlychu yn rhan orllewinol-ganolog yr ardal adfer wedi'i gwblhau. Bydd y gwaith o adfer 20 hectar arall yn dechrau ym mis Chwefror.

Bydd rhaglennu safleoedd y prosiect yn parhau dros y blynyddoedd nesaf gan newid cymeriad a gwerth cyfraniad y tir at fynd i'r afael ag argyfyngau newid hinsawdd a bioamrywiaeth ar y cyd.

### Gwarchod bywyd gwylt

Mae cyflawni gweithrediadau'n cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau bod rhywogaethau pwysig o fywyd gwylt yn cael eu hamddiffyn. Mae poblogaethau o lygoden bengron y dŵr, sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol fel rhywogaeth ar dir isel, wedi'u canfod yn ardal y cynllun, yn ogystal ag ymlusgiaid ac adar sy'n magu.

Ymgymerir ag arolygu a chynllunio gofalus i adnabod pa ardaloedd y maent yn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn ystod y gwaith adfer. “Bydd y rhywogaethau hyn yn cael eu monitro dros y tymor hir i weld sut mae eu poblogaethau yn ymateb i'r cynnydd yn y cynefinoedd addas sydd ar gael,” meddai Gareth.



**Cyfoeth Naturiol Cymru**  
**Natural Resources Wales**



# Rydyn ni eisiau clywed gennych chi!

Helpwch ni i gyfeirio ein cyllid i'r ardaloedd sydd ei angen fwyaf trwy ymateb i'r holiadur hwn

## 1. Faint ydych chi'n ei wybod am Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd?

- Rwyf wedi clywed am y Gronfa
- Rwy'n gwybod am rywbeth sydd wedi'i ariannu gan PyC
- Rwy'n rhan o grŵp neu fusnes sydd wedi'i ariannu gan PyC
- Nid wyf erioed wedi clywed am y Gronfa

## 2. Beth yw eich barn am eich ardal leol nawr o ran y canlynol?

Ystyriwch eich ardal leol fel yr ardal o fewn pellter cerdded 15-20 munud i chi.

1 = Ardderchog, 2 = Da, 3 = Ddim yn dda nac yn wael, 4 = Gwael, 5 = Gwael iawn

	1	2	3	4	5
Cyfleusterau cymunedol					
Siopau lleol a'r stryd fawr					
Addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith					
Yr amgylchedd naturiol					
Cyfleusterau a gwasanaethau iechyd a lles					
Diwylliant					
Isadeiledd (h.y. ffyrdd, cysylltiadau trafndiaeth, mynediad band eang)					

## 3. Pa mor bwysig yw buddsoddi yn y pethau hyn dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn i'r gymuned ffynnu?

1 = Pwysig iawn, 2 = Gweddol bwysig, 3 = Ddim yn bwysig nac yn ddibwys, 4 = Gweddol ddibwys,

5 = Ddim yn bwysig o gwbl

	1	2	3	4	5
Adeiladau cymunedol lleol fel canolfannau cymunedol a neuaddau					
Gwella manau hamdden a chwaraeon					
Hyfforddi a helpu busnesau i gyflogi mwy o bobl					
Helpu busnesau newydd i ddechrau yn yr ardal					
Gwella'r seilwaith digidol yn yr ardal					
Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd					
Cynyddu byw'n gynaliadwy (gwella effeithlonrwydd ynni a thrafnidiaeth werdd a phrosiectau bioamrywiaeth/coetir)					
Cefnogi sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol					
Trafnidiaeth a chysylltiadau ar draws yr ardal					
Annog a chefnogi twristiaeth					
Prosiectau i gefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol					

**4. Pa 5 gair sy'n disgrifio orau sut le yr hoffech i'ch cymuned fod mewn 5 mlynedd?**

**5. Os oes gennych unrhyw syniadau penodol ar gyfer eich ardal, rhowch nhw isod.**

**6. A fydddech chi'n hapus i gymryd rhan mewn arolwg manylach neu drafodaeth ffôn yn y dyfodol?**  
Os felly, rhowch gyfeiriad e-bost neu rif ffôn.

Mae'r cwestiynau demograffig canlynol yn ein helpu i asesu'r ystod o ymatebwyr i'r arolwg. Maent yn ddewisol a gallwch barhau i gyflwyno'r arolwg heb ateb y rhain.

**Pa rywedd ydych chi?**

- Gwryw       Anneuaidd       Arall\*
- Benyw       Gwell gennyf  
   beidio ag ateb
- Trawsryweddol

\*Rhowch fanylion

**Beth yw eich ystod oedran?**

- Iau na 18       25 - 44       Hŷn na 65
- 18 - 24       45 - 64

**Ble yn ardal y Gronfa ydych chi'n byw (neu'n gweithio, os nad ydych yn byw yn yr ardal)?**

- Castell-nedd       Rhondda Fawr       Cynon
- Afan       Rhondda Fach       Arall\*

\*Nodwch os gwelwch yn dda

**Ydych chi'n ystyried eich hun ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n effeithio ar eich gallu i weithio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol?**

\*Rhowch eich manylion cyswllt os dymunwch gael ymateb. Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio at ddibenion Fferm Wynt a CBC Pen y Cymoedd yn unig fel y nodir yn y cylchlythyr hwn ac ni chaiff ei datgelu i unrhyw drydydd parti. Diolch yn fawr.

"Mae angen cyd-ddealltwriaeth o nodau er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd am ddyfodol y Gronfa. Ein huchelgais yw i'r Gronfa gael ei harwain gan y gymuned, ei seilio ar leoedd a'i haddasu i gyfleoedd, materion a blaenoriaethau cymunedol. Rydym angen eich help i wneud yn siŵr bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i osod blaenoriaethau a chynllun gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Rydym nawr yn edrych i'r dyfodol ac yn gweld y cyfnod hwn o ymgynghori fel cyfle i ysgogi arloesi a gweithgaredd cymunedol ac nid dim ond casglu gwybodaeth."

Kate Breeze, Cyfarwyddwr Gweithredol Cronfa Gymunedol PyC

Gallwch roi eich barn ar ein cyllid yn y ffyrdd canlynol:

Llenwch y ffurflen adborth hon a'i phostio yn ôl atom ni: Ar ôl llenwi'r arolwg rhowch ef mewn amlen a'i anfon at **Freepost GRASSHOPPER CONSULT.**

Nid oes angen stamp. Diolch yn fawr ac edrychwn ymlaen at ddarllen eich ymatebion.

Neu gallwch roi adborth i ni ar unwaith drwy anfon e-bost at **enquiries@penycymoeddcic.cymru** neu sganio'r cod QR.

